Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER | **Cyfarfod:** **Cyd-bwyllgor Archwilio**<br>**Lleoliad:** **Pencadlys yr Heddlu**<br>**Dyddiad:** **15 Hydref 2019**<br>**Amser:** **10:00 – 13:00** | Heddlu•Police DYFED-POWYS Diogelu ein Cymuned – Safeguarding our Community |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Malcolm MacDonald (MM)<br>Mr Martin Evans (ME)<br>Mr Andre Morgan (AM)<br>Mr Alasdair Kenwright (AMSK)<br>Ms Kate Curran (KC) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Mr Mark Collins, Prif Gwnstabl (PG)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff (PS)<br>Ms Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Ariannol (CA)<br>Mr Ian Williams, Cyfarwyddwr Ariannol Cynorthwyol (IW)<br>Ms Helen Cargill (TIAA), (HC)<br>Miss Caryl Bond, Swyddog Cymorth Sicrwydd (CB)<br>Mr Huw Morgans, Ymgynghorydd Rheoli Risg a Pharhad Busnes (HM) |
| **Ymddiheuriadau:** | Ms Vicky Davies, TIAA (VD)<br>Mr Mark Collins, Prif Gwnstabl (PG)<br>Mr Richard Harries, Swyddfa Archwilio Cymru, (RH)<br>Mr Jason Blewitt, Swyddfa Archwilio Cymru (JB) |
| **Datganiadau o Fuddiant:** | Dim. |

| CRYNODEB O GAMAU GWEITHREDU CYFARFOD 30 GORFFENNAF 2019 | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w symud yn ei flaen gan | Cynnydd |
| **A101 2018/19** | **Mae'r cylch gorchwyl i'w ddiwygio i gynnwys newidiadau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â deiliadaeth Cadeirydd y Cyd-bwyllgor yn benagored gydag etholiad yn cael ei gynnal bob tair blynedd.** | **SCHTh** | **Cwblhawyd** |
| **A101 2018/19** | **Cyhoeddi cylch gorchwyl diwygiedig y Cyd-bwyllgor Archwilio ar wefan y Comisiynydd.** | **SCHTh** | **Cwblhawyd** |
| **A106 2018/19** | **Argymhellwyd llofnodi Llythyr Cynrychiolaeth drafft Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan y llofnodwyr priodol.** | **PG/CHTh** | **Cwblhawyd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A106 2018/19** | **Argymhellwyd llofnodi Llythyr Cynrychiolaeth drafft y Prif Gwnstabl gan y llofnodwyr priodol.** | **PG/CHTh** | **Cwblhawyd** |
| **A107 2018/19** | **Dod â'r gwaith mewn perthynas â'r polisi Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd i'r Pwyllgor yn y dyfodol.** | **PSA** | **Yn parhau** |
| **A107 2018/19** | **Cyfeirio at y Cyd-bwyllgor Archwilio fel trefniant i adrodd o fewn ymateb y Rheolwyr i'r ymholiadau archwilio ar drefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll.** | **Swyddfa Archwilio Cymru** | **Cwblhawyd** |
| **A108 2018/19** | **I'r tabl ar dudalen 40 gael ei ddiwygio cyn llofnodi'r Datganiad o Gyfrifon.** | **CA** | **Cwblhawyd** |
| **A108 2018/19** | **Mae'r Pwyllgor yn argymell y Datganiad o Gyfrifon Blynyddol Drafft ar gyfer 2017/18 i'r CHTh a'r PG i'w gymeradwyo.** | **CHTh/PG** | **Cwblhawyd** |
| **A109 2018/19** | **TIAA i roi adborth yn y cyfarfod nesaf ar sut mae'r egwyddorion fel y'u nodir yn nogfen datganiad CIPFA Rôl Pennaeth Archwilio Mewnol yn berthnasol i TIAA fel sefydliad.** | **TIAA** | **Cwblhawyd** |
| **A111 2018/19** | **I nifer y ceisiadau Mynediad at Ddata gan Destun a dderbynnir gan yr Heddlu i gael eu cylchredeg i'r Pwyllgor.** | **DJ** | **Cwblhawyd** |
| **A112 2018/19** | **TIAA i ychwanegu blwch lefel blaenoriaeth i Adolygiadau dilynol i nodi lefel yr argymhellion sy'n weddill.** | **TIAA** | **Cwblhawyd** |

Croesawodd MM bawb i'r cyfarfod.

Rhoddwyd ymddiheuriadau ar ran Swyddfa Archwilio Cymru.

Bydd y PG yn hwyr yn dod i'r cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill.

**A119 2018/19: Ethol Cadeirydd y Panel.**

Esboniodd y PS ei fod yn amser ethol Cadeirydd Pwyllgor, yn unol â chylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio. Cynigiodd AM fod MM yn parhau fel Cadeirydd. Cytunodd pob aelod â'r cynnig hwn. Cadarnhaodd MM ei fod yn hapus i barhau fel Cadeirydd.

**Penderfyniad 119 2018/19: Ail-etholwyd MM fel Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio.**

**A120 2018/19: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2019 a Materion yn Codi**

Nododd HC bod camgymeriad teipio ar dudalen 3 o'r cofnodion lle y cyfeirir at JM fel JB. O dan A86.

**Cam Gweithredu A120: CB i ddiwygio'r camgymeriad teipio ar dudalen 3 o dan A86 lle y cyfeirir at JM fel JB.**

Nododd AM fod camgymeriad teipio ar dudalen 13 yn y copi Saesneg o'r cofnodion, lle y nodir '*breeches'* yn lle '*breaches'*.

**Cam Gweithredu A120: CB i ddiwygio'r camgymeriad teipio ar dudalen 13 yn y copi Saesneg o'r cofnodion.**

**Action 120: CB i ddiwygio A108 i'r Datganiad Blynyddol o Gyfrifon Drafft ar gyfer 2018/19 yn lle 2017/18.**

Trafodwyd y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol. Mae'r rhan fwyaf wedi'u cwblhau, fel y nodir yn y tabl camau gweithredu.

Rhoddodd y PS ddiweddariad mewn perthynas ag A97, ac esboniodd y byddai'n mynd i gyfarfod nes ymlaen y diwrnod hwnnw er mwyn trafod dyfodol yr ymddiriedolaeth gyda'r ymddiriedolwyr a phenderfynu pa un ai a fydd yn parhau. Rhoddir diweddariad mewn perthynas â hyn yn y cyfarfod nesaf.

Esboniodd y PS bod cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio wedi'i ddiwygio, yn unol â thrafodaethau o'r cyfarfod diwethaf, a'i fod nawr wedi'i gyhoeddi ar wefan CHTh.

Rhoddodd y PS ddiweddariad mewn perthynas ag A107 a'r Polisi Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd. Mae'r Polisi hwn ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd, ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Heddlu a SCHTh. Y gobaith yw y bydd fersiwn ddrafft yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod pwyllgor nesaf i'r Aelodau ystyried.

Rhoddodd HC ddiweddariad mewn perthynas ag A109: TIAA i roi adborth yn y cyfarfod nesaf ar sut mae'r egwyddorion fel y'u nodir yn nogfen datganiad CIPFA ar Rôl Pennaeth Archwilio Mewnol yn berthnasol i TIAA fel sefydliad. Esboniodd HC fod gan TIAA ymgynghorydd annibynnol sy'n edrych ar eu cydymffurfiaeth â gofynion CIPFA ac egwyddorion allweddol. Maen nhw wedi canfod nad oes angen unrhyw newidiadau i'w

gweithdrefnau a'u harferion presennol, gan eu bod nhw eisoes wedi'u llunio i adlewyrchu safonau sector cyhoeddus sy'n cwmpasu gofynion CIPFA. Esboniodd HC nad ydynt yn medru ymgymryd ag adolygiad annibynnol ar gyfer pob cleient gan fod dros 350 o gleientiaid ganddynt. O'r herwydd, ymgymerir ag un adolygiad sy'n edrych ar drawstoriad o sefydliadau. Mae'r adolygiad hwn ar gael i bob sefydliad weld. Gellir cynnal adolygiad annibynnol ar gyfer HDP yn unig, fodd bynnag, bydd cost ychwanegol ar gyfer hyn. Holodd ME pa un ai a oedd Dyfed-Powys yn un o'r sefydliadau a gynhwysir yn yr adolygiad. Dywedodd HC y byddai modd iddi ddarganfod y wybodaeth hon ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

**Cam Gweithredu A120: HC i gadarnhau pa un ai a oedd Heddlu Dyfed-Powys yn un o'r sefydliadau a gynhwyswyd yn adolygiad annibynnol diweddaraf TIAA.**

Holodd MM pa un ai a fyddai modd iddynt ofyn am i Heddlu Dyfed-Powys gael ei gynnwys fel un o'r sefydliadau yn yr adolygiad annibynnol nesaf os oedd y Pwyllgor yn teimlo bod angen hyn. Cadarnhaodd HC y gallai'r cais hwn gael ei gyflwyno i'r sefydliad os dymunir hynny. Rhannodd HC hefyd bod Heddlu Gwent wedi ymgymryd ag adolygiad yn ddiweddar o gydymffurfiaeth TIAA, ac y gallai'r canfyddiadau hyn gael eu rhannu. Cytunodd y Panel y byddai'n ddefnyddiol cael gweld adolygiad Gwent fel un o heddluoedd eraill Cymru.

**Cam Gweithredu 120: HC i rannu adolygiad o gydymffurfiaeth TIAA Gwent ac adolygiad annibynnol TIAA â'r Pwyllgor.**

Mewn perthynas ag A112, sef bod TIAA yn ychwanegu blwch lefel blaenoriaeth i ddilyn Adolygiadau ar gyfer adnabod lefel argymhellion, sy'n arbennig, cadarnhaodd HC y bydd hyn yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad interim gorffenedig nesaf.

Esboniodd y PS rôl cyfarfod y Grŵp Sicrwydd Ansawdd ac Archwilio o ran ymgysylltu â nifer o reolwyr er mwyn pennu meysydd sy'n achosi pryder iddynt a'i rôl mewn perthynas â llunio'r Cynllun Archwilio Mewnol. Esboniwyd mai cam gweithredu a ddaeth o'r cyfarfod hwnnw oedd bod matrics yn cael ei greu er mwyn dangos i aelodau sut y gellir blaenoriaethu archwiliadau. Nodwyd nifer o feysydd i'w harchwilio, ond mae gwaith yn mynd rhagddo o ran blaenoriaethu meysydd ar gyfer adolygu yn systematig. Ychwanegodd IW hefyd eu bod yn dwyn hyn i sylw'r Grŵp Sicrhau Ansawdd ac Archwilio yn ystod y flwyddyn archwilio gyfredol, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o archwiliadau wedi'u pennu, gyda rhaglen archwilio eisoes mewn grym gyda chwmpas cyfyngedig. Bydd y broses hon o gynnwys y Grŵp Sicrhau Ansawdd ac Archwilio fwyaf effeithiol wrth lunio'r Cynllun Archwilio Mewnol nesaf ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Holodd KC pa un ai a fyddai diweddariad mewn perthynas â'r isadeiledd TGCh, fel sydd wedi'i gofnodi ar dudalen 8 o'r cofnodion, werth chweil oherwydd roedd yn dweud eu bod yn gweithio i ddyddiad gweithredu Medi a Hydref o fewn Adolygiad Sicrwydd TIAA o'r Isadeiledd TGCh.

**Cam Gweithredu 120: TGCh i roi diweddariad yn y cyfarfod nesaf mewn perthynas â'r Isadeiledd TGCh.**
**Penderfyniad A120: Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.**

**A121 2018/2019: Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol**

**a) Adolygiad Cydymffurfiaeth o Oramser a Lwfansau Ychwanegol**

Canlyniad: Sicrwydd Sylweddol heb unrhyw argymhellion. Canfu'r adolygiad bod gan y sefydliad reoliadau effeithiol mewn grym ar gyfer prosesu taliadau goramser a lwfansau ychwanegol. Canfu bod Gweithdrefnau Rheolaeth Ariannol 3.7 – Cyflogres yn ddiweddar. Rhoddodd y CA ddiweddariad mewn perthynas â goramser, ac esboniodd fod y Grŵp Aur Cyllid wedi bod yn canolbwyntio ar hyn. Esboniodd y CA bod y PGC yn cadeirio'r Grŵp Aur Cyllid, ac o ganlyniad i waith sy'n cael ei yrru o'r grŵp hwn, maen nhw wedi gweld gwelliannau o ran adrodd a gwybodaeth reoli, sydd wedi'u galluogi i edrych ar ddata ac adnabod unrhyw dueddiadau presennol a thueddiadau yn y gorffennol. Esboniodd y CA fod y lefel awdurdodi ar gyfer goramser wedi newid llynedd. Hefyd, maen nhw wedi adeiladu cronfa wrth gefn ar gyfer digwyddiadau mawr nad oes modd eu rhagweld. Eleni, mae ganddynt danwariant o £180,000 ar oramser o'i gymharu â llynedd, fodd bynnag, rhaid nodi nad ydynt wedi cael cymaint o weithrediadau / digwyddiadau mawr o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ychwanegodd IW bod gwaith yn digwydd er mwyn edrych ar y maes goramser hwn, gan ystyried lles swyddogion a phwysau gwaith, er mwyn ceisio mynd i'r afael â phryderon ynghylch goramser a'u dileu.

Nododd AM ei fod yn galonogol clywed am waith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â goramser, a'i fod yn braf gweld bod yr Heddlu mewn llawer gwell sefyllfa hyd yn hyn o gymharu â gwariant llynedd. Mae newidiadau allweddol a roddwyd ar waith wedi gwneud gwahaniaeth amlwg.

Nododd y CHTh ei fod hefyd yn gysylltiedig â gwaith craffu mewn perthynas â hyn. Nodwyd y bydd adnoddau ychwanegol gan y Llywodraeth, pan fyddant yn cael eu rhoi, yn helpu â rhai o'r meysydd hyn pan mae'r galw ar gyfer goramser yn uchel, a ddylai, yn ei dro, weld gostyngiad yn yr angen ar gyfer goramser. Y gobaith yw y bydd hyn, yn ogystal â'r gwaith sy'n mynd rhagddo o ran edrych ar ddata a thueddiadau, yn helpu i leihau'r angen ar gyfer gwariant sy'n codi eto.

Esboniodd y PSA bod argymhellion y Grŵp Aur Cyllid yn cael eu gwreiddio'n llwyddiannus mewn polisïau ac o fewn y sefydliad, felly penderfynodd y PG ddod â'r Grŵp i ben. Bu adolygiad o strwythurau llywodraethu'r Heddlu, ac mae un o'r Byrddau wedi'i ail-enwi'n Fwrdd Cyllid, Arbedion Effeithlonrwydd a'r Dyfodol. Bydd y Bwrdd hwn yn parhau â gwaith yr hen Grŵp Aur Cyllid. Fodd bynnag, yn ogystal â hyn, ceir y grŵp goramser a'r Grŵp Cynllunio Ariannol Tymor Canolig, sydd hefyd yn parhau i weithio ar reoli goramser.

**b) Rheolaeth AD – Recriwtio a Hyfforddi**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol gydag un argymhelliad blaenoriaeth un: Sefydlu gweithdrefn ar gyfer dadansoddi ansawdd cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol, a meysydd sydd angen gwella, yn rheolaidd. Cawsant fod yr Heddlu'n defnyddio ffurflen adborth generig ar gyfer gwerthuso cyrsiau hyfforddi, fodd bynnag, nid yw ansawdd y cyrsiau sy'n cael eu cyflwyno'n cael eu hasesu er mwyn darparu sail ar gyfer ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' i sicrhau gwerth am arian a hysbysu datblygiad yn y dyfodol.

Holodd ME am y sylw a oedd wedi'i gynnwys yn y blwch cynhwysiad cyffredinol – "Mae'r Heddlu wrthi'n ehangu adrodd ar recriwtio i'r fforymau llywodraethu." Nododd ME nad oes cyfeiriad yn y naratif o ran pa brosesau sydd mewn grym ar gyfer gwella adrodd ar recriwtio i'r fforymau llywodraethu, a pha un ai a oes unrhyw amserlenni ac ati. Esboniodd HC fod cyfeiriad at hyn o dan adran 11.5 o'r adroddiad, fodd bynnag, mae'n hapus i ddiweddaru'r Pwyllgor gyda gwybodaeth bellach ar y prosesau sydd mewn grym mewn perthynas â'r canlyniad hwn.

**Cam Gweithredu 121: HC i ddiweddaru'r Pwyllgor gyda gwybodaeth bellach ar brosesau sydd mewn grym mewn ymateb i'w adolygiad ar adrodd am recriwtio i'r fforymau llywodraethu.**

Holodd AM pa un ai a oedd TIAA yn fodlon ag ymateb yr Heddlu i'r argymhelliad blaenoriaeth 2 – "Gan ddefnyddio systemau'r heddlu, byddwn ni'n edrych ar y potensial i awtomeiddio'r holiaduron adborth cychwynnol er mwyn rhyddhau staff i ymgymryd â dadansoddiad o ansawdd yr hyfforddiant." Esboniodd HC nad bod angen i waith gael ei wneud yn y dyfodol mewn perthynas â chasglu adborth ac edrych arno.

Teimlai'r Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol derbyn gwybodaeth bellach ar hyn yn y dyfodol o ran sut y gellir rheoli casglu'r adborth ar gyrsiau hyfforddi.

**Cam Gweithredu 121: Rhoi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor mewn perthynas â sut y gellir casglu adborth o gyrsiau er mwyn helpu i werthuso eu gwerth.**

Cododd IW bwynt mewn perthynas â throsglwyddo o'r systemau iTrent mewnol i'r system Cymru gyfan a pha un ai a oedd y Pwyllgor yn teimlo y byddai'n fuddiol edrych yr agweddau gwerth am arian yn y newid hwn. Cadarnhaodd y CA bod adroddiad wedi'i gyflwyno mewn perthynas â'r newidiadau hyn a bod arbedion sylweddol wedi'u nodi. Holodd IW pa un ai a fyddai'n fuddiol i'r ymholiad gwerth am arian fod yn gwestiwn sefydlog yn holl adolygiadau TIAA. Awgrymodd MM y dylid mynd â'r cais hwn i'r Grŵp Sicrhau Ansawdd ac Archwilio gan y byddai hyn yn berthnasol ar gyfer eu trafodaethau a'u hagenda.

Roedd HC hefyd yn dymuno nodi eu bod yn ystyried ffyrdd ar gyfer gwella systemau a gweithdrefnau fel rhan o bob adolygiad i gynyddu arbedion effeithlonrwydd, gan gynnwys arbedion cost a Gwerth am Arian. Bydd HC hefyd yn gofyn i sylw gael ei dynnu at werth am arian, a'i ystyried ym mhob adolygiad er mwyn atgoffa pobl.

**A122 2018/19: Ystyried adroddiad cynnydd 2019/20 yr Archwilwyr Mewnol (SICA)**

Esboniodd HC fod yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch cynnydd eu gwaith hyd 7 Hydref 2019. Esboniodd HC fod tudalen 4 yn dangos crynodeb o'r holl adolygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn a'r adolygiadau sydd wedi'u cwblhau. Mae dau adroddiad ar ffurf drafft ar hyn o bryd, ac mae nifer o adroddiadau ar waith.

Esboniodd HC fod nifer o gwmpasau dal yn disgwyl cael eu cyhoeddi. Cyfarfu TIAA â'r holl unigolion arweiniol ardal ddechrau'r flwyddyn er mwyn trafod yr archwiliadau a'u

disgwyliadau. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yn unol â'r cynllun, gyda 13 diwrnod wrth gefn dal ar gael pe bai angen gwaith ychwanegol.

Nododd y PS mai un o'r pwyntiau a godwyd yng nghyfarfod y Grŵp Llywodraethu oedd y ffaith nad oedd unrhyw adolygiadau wedi'u trefnu mewn perthynas â gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu, a pha un ai a fyddai'n werth defnyddio rhai o'r diwrnodau wrth gefn i adolygu'r maes hwn, yn enwedig gan y byddant yn edrych ar ail-gomisiynu nifer o wasanaethau dros y flwyddyn nesaf.

**A123 2018/19: Derbyn adroddiad rheoli trysorlys – perfformiad yn ystod 2018/19 ac adroddiad canol blwyddyn o berfformiad yn ystod 2019/20**

Esboniodd y PSA bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu ar berfformiad yn 2018/19, yn ogystal ag adroddiad canol blwyddyn o berfformiad hyd yn hyn yn 2019/20. Nododd y PSA bod ein sefyllfaoedd cymharol yn gadarnhaol, gyda'r tîm yn gweithio'n agos ag Arlingclose. Bydd Arlingclose hefyd yn rhoi cyflwyniad yn y seminar cyllid fis Rhagfyr. Dywedodd y PSA eu bod nhw wrthi'n adolygu eu rhaglen Gyfalaf ar hyn o bryd mewn paratoad ar gyfer y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r gwaith praesept gan fod cyfarfod ychwanegol o'r Grŵp Cyllid, Arbedion Effeithlonrwydd a'r Dyfodol gyda ffocws ar gyfalaf, sy'n edrych ar y posibilrwydd o gael rhaglen gyfalaf deng mlynedd. Mynegwyd rhai pryderon ers yr adroddiad ar ôl i'r Trysorlys gyhoeddi cynnydd o 1% mewn benthyca Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Mae hyn wedi codi pryder ymysg sefydliadau Sector Cyhoeddus sydd â rhaglenni cyfalaf sy'n dibynnu ar fenthyca. O ganlyniad i hyn, bydd angen adolygu rhaglenni cyfalaf y sefydliad, gan dderbyn cyngor gan Arlingclose ynglŷn â'r ffordd orau o ddarparu ar gyfer y newidiadau hyn. Nododd y PSA hefyd bod diffyg mewn incwm buddsoddi eleni, fel y nodir yn yr adroddiad. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r rhaglen Gyfalaf yn cynnwys rhai tybiaethau benthyca, a bu rhywfaint o lithriad o ran dau o'r prif gynlluniau. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyd-uned Arfau Saethu, sy'n cael ei chynnwys, fodd bynnag, o gyfarfodydd diweddar, mae'n debygol y bydd y cyfraniad hwn fwy o gwmpas £8,000,000. Bydd angen cynnwys y cynnydd hwn yn yr adolygiad o'r Rhaglen Gyfalaf.

Roedd AM eisiau canmol yr adroddiad, a noddodd ei fod yn gadarnhaol gweld o fewn y graffiau ar dudalennau 6 a 7 eu bod yn bodloni eu mesuriadau perfformiad. Nododd y

Pwyllgor bod un dangosydd cynghorus wedi'i dorri o dan cydymffurfiaeth gan fod y Gofyniad Ariannu Cyfalaf wedi'i ad-dalu.

Holodd KC ers pryd mae Arlingclose wedi bod yn ymgynghorwyr ariannol ar gyfer Dyfed-Powys. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r ffaith mai Arlingclose yw'r ymgynghorwyr ariannol ers dros 6 mlynedd, ac roedd y Pwyllgor yn gytûn bod eu cyfraniad a'u cyflwyniadau mewn cyfarfodydd yn y gorffennol wedi bod yn addysgiadol a buddiol iawn. Holodd KC ac AK pa un ai a fyddai'n werth edrych ar opsiynau yn y dyfodol pan mae'n amser adnewyddu'r cytundeb er mwyn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei ystyried. Cytunodd y PSA y byddai opsiynau'n cael eu hystyried pan mae'n amser adnewyddu cytundebau.

**Cam Gweithredu 123: PSA i gadarnhau pryd mae cytundeb Arlingclose yn dod i ben.**

Croesewir y PG i'r cyfarfod.

**A124 2018/19: Briff Gwerth am Arian Cydweithio**

Mae Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 wedi gosod dyletswyddau newydd ar Gomisiynwyr a Phrif Swyddogion i gydweithio pan mae o fudd i effeithiolrwydd eu hardal heddlu eu hun ac ardaloedd heddlu eraill. Esboniodd y PSA y bu ganddynt rai pryderon, fel y nodir yn y gofrestr risg strategol mewn perthynas â rheolaeth ariannol a llywodraethu cydweithio. Esboniodd y PSA eu bod wedi bod yn trafod gyda Swyddfa Archwilio Cymru, ac awgrymwyd y gallai fod yn fuddiol pigo hyn i fyny fel rhan o waith ar y cyd. Esboniodd y PSA bod y briff hwn wedi'i drafod gan Grŵp Plismona Cymru Gyfan.

Mynegodd y CHTh ei fod yn teimlo bod angen lefel craffu uwch ar y trefniadau cydweithio. Mae trefniadau cydweithio'n weithredol, ond o ran llywodraethu a rheolaeth ariannol, mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'n chwarae rhan mewn dal Prif Swyddogion i gyfrif mewn perthynas â'r gweithgarwch hwn.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r ffordd y bydd yr adolygiad yn cael ei ddatblygu.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol cael diweddariad ynghylch cynnydd mewn perthynas â'r rhaglen yn y cyfarfod nesaf.

**Cam Gweithredu A124: Swyddfa Archwilio Cymru i roi diweddariad i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf ynghylch cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r briff gwerth am arian cydweithio.**

**A125 2018/19: Ystyried hunan-asesiad drafft Pwyllgor Archwilio Dyfed-Powys**

Esboniodd MM fod yr hunan-asesiad hwn o Gyd-bwyllgor Archwilio Dyfed-Powys wedi dod o ganlyniad i gais yn y diwrnod hyfforddi ar y cyd diwethaf. Esboniodd y PS ei bod hi, MM a'r CA wedi cwrdd er mwyn llunio'r drafft cyntaf hwn, ac yn dymuno dwyn sylw'r Pwyllgor ato cyn ei orffen a'i gyflwyno i SCHTh Gogledd Cymru ar gyfer cyfuno ac adolygu.

Cododd KC bwynt mewn perthynas â'r adran sy'n cyfeirio at gefndir a chyfansoddiad yr aelodau o ran cynnwys cymysgedd o sgiliau a gwybodaeth – nid oes unrhyw gyfeiriad at amrywiaeth. Teimlwyd y byddai'n ddefnyddiol nodi bod recriwtio'n amrywiol yn her adnabyddus yn Nyfed-Powys. Cytunodd y Pwyllgor bod hwn yn bwynt dilys i'w gynnwys, ac y byddai unrhyw argymhellion pellach o ran sut y gallant geisio sicrhau eu bod nhw'n cynrychioli cymunedau wrth recriwtio'n cael eu croesawu.

**Cam Gweithredu 125: Y PS i ychwanegu cyfeiriad at amrywiaeth yn yr adran sy'n cyfeirio at sgiliau a chyfansoddiad Aelodau o fewn hunanasesiad Cyd-bwyllgor Archwilio Dyfed-Powys.**

Nododd MM mai'r nod yw y byddant yn medru defnyddio'r hunanasesiad hwn fel fframwaith ar gyfer monitro eu llwyddiannau a phrosesau.

Gofynnodd y PS i'r aelodau roi unrhyw ddiwygiadau pellach iddi erbyn diwedd yr wythnos.

**A126 2018/2019: Risgiau Corfforaethol sylweddol yr Heddlu**

Croesawodd MM HM i'r cyfarfod.

Rhoddodd HM ddiweddariad mewn perthynas â'r Heddlu'n adolygu ei awydd am risg mewn perthynas â risgiau rheoli gwybodaeth. Mae hyn yn deillio o ymweliad gan archwilwyr Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddechrau'r flwyddyn pan nodwyd maes ar gyfer gwella, sef i'r sefydliad gael cofrestr risg gwybodaeth ar wahân. Derbyniwyd hyn a

chyflwynwyd cynnig gerbron y Bwrdd Sicrwydd ac Ansawdd i gyflwyno cofrestr risg newydd i'r sefydliad, sy'n cynnwys y risigiau gwybodaeth yn unig. Bydd hyn yn galluogi'r sefydliad i ganolbwyntio ar risgiau gwybodaeth mewn ffordd fwy cadarn.

Esboniodd HM y bu un maes risg newydd o fewn y gofrestr Risg Corfforaethol ers eu cyfarfod diwethaf, mewn perthynas â'r posibilrwydd o golli gallu patholeg fforensig y Swyddfa Gartref yng Nghymru. Ym mis Medi 2019, mynegodd Prifysgol Cymru fwriad i dynnu eu harian a'u gwasanaeth yn ôl o haf 2020, a fydd yn cael effaith weithrediadol sylweddol. Mae Prif Gwnstabl De Cymru'n arwain ar yr ymateb, ac maen nhw mewn cysylltiad â'r Brifysgol i weld sut y gellid goresgyn y broblem hon.

O ran meysydd risg sydd wedi gwella, esboniodd HM fod *Eurofins Forensic Services* wedi cael caniatâd i ddychwelyd i statws 'busnes fel arfer'. Cyflwynir y maes risg hwn i'r Bwrdd Gweithrediadau Aur yn ddiweddarach y mis hwn er mwyn ei ryddhau o'r gofrestr risg.

Mae'r ail faes gwelliant yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth â gofynion statudol i ymgymryd ag Archwiliadau Iechyd a Diogelwch. Codwyd y maes risg hwn ar 27/04/18 mewn ymateb i berfformiad anghyson o ran lleoli staff sydd wedi derbyn hyfforddiant y Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (IOSH) i gyflawni archwiliadau iechyd a diogelwch ac ymarferion tân mewn adeiladau heddlu. Trwy osod y risg hwn ar y gofrestr, esboniodd HM ei fod wedi cyflwyno ffocws ar gyfer lleoli i ymgymryd ag archwiliadau iechyd a diogelwch a dod o hyd i adnoddau ychwanegol pan fod anawsterau o ran cyflawni hyn. Mae'r Heddlu wedi gweld gwelliant sylweddol o ran cydymffurfiaeth, gydag arolygon ac ymarferion tân yn dangos cydymffurfiaeth o 98% ar draws yr Heddlu (heblaw dalfeydd). Mae'r ffigwr hwn yn cymharu â sefyllfa o 53% ar gyfer 2017 a 69% ar gyfer 2018. Mae angen gwneud gwaith pellach mewn dalfeydd. Cydnabu bod y maes risg hwn wedi gwella'n sylweddol, ond bydd yn cael ei gadw ar y gofrestr risg hyd nes bod modd ystyried ymhellach yng nghyfarfod Grŵp Iechyd a Diogelwch yr Heddlu fis Rhagfyr.

Rhoddodd HM ddiweddariad mewn perthynas â risgiau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys gadael yr UE. Mae dal ansicrwydd o fewn y maes perygl hwn. Yn ddiweddar, bu gweithgarwch gyda'r Swyddfa Gartref, sydd wedi codi nifer o gwestiynau ynghylch cynlluniau parhad busnes a gwasanaethau brys.

Rhoddodd HM ddiweddariad mewn perthynas â chwmni a oedd wedi cael ei achrediad wedi'i ddileu oherwydd fe nodwyd ei fod wedi defnyddio rhai aelodau staff nad oedd wedi'u fetio

ar achosion a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae’r risg hwn wedi’i ryddhau yn awr, gyda phob unigolyn wedi derbyn cliriad fetio ac achrediad y cwmni’n cael ei adfer.

Diolchodd MM i HM am ddod ac am ei gyfraniad i’r cyfarfod.

**A127 2018/2019: Camau Gweithredu’r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol – 3 Hydref 2019**

Edrychodd y Pwyllgor ar y camau gweithredu a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Roedd MM eisiau ailadrodd pwynt y PS mewn perthynas â’r dyddiau wrth gefn sydd ar gael gyda TIAA a’r posibilrwydd o adolygiad pellach yn cael ei gynnal o Swyddfa’r CHTh mewn perthynas â gwasanaethau sy’n cael eu comisiynu. Dywedodd y PS y byddant yn edrych ar y Strategaeth Gomisiynu dros y 18 mis nesaf, gyda nifer o wasanaethau’n edrych ar gael eu hail-gomisiynu. Byddai defnyddio rhai o’r dyddiau ychwanegol sydd gan TIAA i gyflawni rhywfaint o’r gwaith yn y maes hwn yn fuddiol.

**A128 2018/2019: Derbyn camau gweithredu cyfarfod y Grŵp Sicrhau Ansawdd ac Archwilio a gynhaliwyd ar 30 Medi 2019**

Edrychodd y Pwyllgor ar y camau gweithredu a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Archwilio a Sicrhau Ansawdd. Hwn yw’r tro cyntaf i’r camau gweithredu gael eu cyflwyno i’r Cyd-bwyllgor Archwilio.

Esboniodd y PS mai un o elfennau allweddol y cyfarfod yw sicrhau bod cydlynu gwell o ran gweithgarwch archwilio o fewn y sefydliad er mwyn deall effaith y gweithgarwch archwilio a sicrhau y dysgir ohono. Mae gwaith wedi’i gyflawni gan y DBG mewn perthynas â strwythurau llywodraethu a fydd yn helpu i hwyluso’r gwelliannau hyn. Elfen arall fydd yn cael ei thrafod a’i monitro o fewn y grŵp yw’r pryderon a godwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor mewn perthynas ag amseroldeb ymateb yr heddlu i adolygiadau archwilio. Bydd y rhesymau dros oedi’n cael eu hystyried, a bydd ffyrdd ar gyfer lliniaru hyn yn cael eu harchwilio er mwyn datblygu argymhellion mewn modd amserol.

Nododd AM fod nifer fawr o ymddiheuriadau yn y cyfarfod diwethaf. Dywedodd y PS fod gofynion gweithredol, a’r ffaith bod y rhai a oedd fod yno’n swyddogion gweithredol, wedi effeithio ar bresenoldeb. Sicrhaodd y PS y Pwyllgor y bydd y rhestr o fynychwyr yn cael ei

adolygu unwaith y bydd y strwythurau llywodraethu newydd wedi'u gweithredu er mwyn rhaeadru gwybodaeth allweddol.

**A129 2018/2019: Diweddariadau gan Aelodau**

Esboniodd MM fod hwn yn eitem newydd ar agendau'r Cyd-bwyllgor Archwilio er mwyn caniatáu i aelodau Pwyllgor rannu unrhyw wybodaeth berthnasol neu weithgareddau allweddol maen nhw wedi bod yn gysylltiedig â nhw mewn perthynas â gwaith CHTh a'r PG â gweddill y grŵp.

Nododd MM ei fod wedi mynd i ddigwyddiad TCC CHTh a bod ansawdd y cyfleusterau TCC wedi creu argraff arno. Roedd MM eisiau mynegi ei ddiolch i'r CHTh am y gwahoddiad i'r digwyddiad a'r mewnweledиad i'r maes gwaith gwerthfawr hwn.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â llwyddiant TCC o ran mecanwaith atal ac o ran yr adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan gymunedau eu bod yn teimlo'n fwy diogel o lawer allan yn eu cymunedau lleol.

Dywedodd MM ei fod hefyd yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Llywodraethu AHEM, sy'n edrych ar yr argymhellion sy'n deillio o adroddiadau AHGTAEM. Bydd MM yn medru diweddaru'r Pwyllgor o ran unrhyw elfennau allweddol sy'n codi o'r cyfarfodydd hyn.

**A130 2018/2019: Diweddariad ynghylch diwrnod hyfforddi blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio**

Bellach, mae trefniadau mewn grym ar gyfer diwrnod hyfforddi blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio, a fydd yn cael ei gynnal yn Wrecsam ym mis Ebrill. Bydd CB yn ail-anfon y gwahoddiadau er mwyn cadarnhau pwy fydd yn bresennol.

**Cam Gweithredu A130: CB i ail-ddosbarthu'r wybodaeth mewn perthynas â diwrnod hyfforddi blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio.**

**A131 2018/2019: Diweddariad Diogelu Data**

Esboniodd MM fod y wybodaeth hon wedi'i dwyn i sylw'r Pwyllgor er mwyn monitro unrhyw risgiau neu feysydd sy'n achosi pryder. Nododd ME y bu twf o 13% o ran

achosion o dorri rheoliadau data. Holodd pa un ai a yw hyn yn gysylltiedig â gwell gwybodaeth o ran cofnodi achosion o'r fath, ac ati.

Dywedodd y PG ei fod yn teimlo bod y twf hwn yn ymwneud â gwell dealltwriaeth o ddiogelu data a'r angen ar gyfer adrodd a chofnodi. Yn gadarnhaol, maen nhw wedi gweld cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n dwyn achosion o dorri rheoliadau data i sylw'r heddlu. Nododd y PS ei fod yn galonogol gweld diwylliant o ddysgu pan mae camgymeriad yn cael ei wneud, gydag unigolion yn hyderus i adrodd am gamgymeriadau a sicrhau eu bod nhw'n dysgu o hynny er mwyn osgoi gwneud yr un camgymeriadau eto.

**A132 2018/2019: Unrhyw Fusnes Arall**

Dim busnes arall i'w drafod. Diolchodd MM i bawb am ddod i'r cyfarfod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:07 awr**

| PENDERFYNIADAU SY'N DEILLIO O GYFARFOD 15 HYDREF 2019 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Penderfyniad | Crynodeb o'r Penderfyniad | |
| **A119 2018/19** | **Ail-ethol MM fel Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio.** | **Cwblhawyd** |
| **A120 2018/19** | **Yn amodol ar y diwygiadau a drafodwyd, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.** | **Cwblhawyd** |

| CAMAU GWEITHREDU SY'N DEILLIO O GYFARFOD 15 HYDREF 2019 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w ddatblygu gan |
| **A120 2018/19** | **CB i ddiwygio'r camgymeriad teipio ar dudalen 3 o dan A86 lle y cyfeirir at JM fel JB.** | **CB** |
| **A120 2018/19** | **CB i ddiwygio'r camgymeriad teipio ar dudalen 13 yn y copi Saesneg o'r cofnodion.** | **CB** |
| **A120 2018/19** | **HC i gadarnhau pa un ai a oedd Heddlu Dyfed-Powys yn un o'r sefydliadau a gynhwyswyd yn adolygiad annibynnol diweddaraf TIAA.** | **TIAA** |
| **A120 2018/19** | **HC i rannu adolygiad o gydymffurfiaeth TIAA Gwent ac adolygiad annibynnol TIAA â'r Pwyllgor.** | **TIAA** |
| **A120 2018/19** | **CB i ddiwygio A108 i'r Datganiad Blynyddol o Gyfrifon Drafft ar gyfer 2018/19 yn lle 2017/18.** | **CB** |

| | | |
|---|---|---|
| **A120 2018/19** | **TGCh i roi diweddariad yn y cyfarfod nesaf mewn perthynas â'r Isadeiledd TGCh.** | **TGCh** |
| **A121 2018/19** | **HC i ddiweddaru'r Pwyllgor gyda gwybodaeth bellach ar brosesau sydd mewn grym mewn ymateb i'w adolygiad ar adrodd am recriwtio i'r fforymau llywodraethu.** | **TIAA** |
| **A121 2018/19** | **Rhoi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor mewn perthynas â sut y gellir casglu adborth o gyrsiau er mwyn helpu i werthuso eu gwerth.** | **Yr Heddlu** |
| **A123 2018/19** | **PSA i gadarnhau pryd mae cytundeb Arlingclose yn dod i ben.** | **PSA** |
| **A124 2018/19** | **Swyddfa Archwilio Cymru i roi diweddariad i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf ynghylch cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r briff gwerth am arian cydweithio.** | **Swyddfa Archwilio Cymru** |
| **A125 2018/19** | **Y PS i ychwanegu cyfeiriad at amrywiaeth yn yr adran sy'n cyfeirio at sgiliau a chyfansoddiad Aelodau o fewn hunanasesiad Cyd-bwyllgor Archwilio Dyfed-Powys.** | **PS** |
| **A130 2018/19** | **CB i ail-ddosbarthu'r wybodaeth mewn perthynas â diwrnod hyfforddi blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio.** | **CB** |

| CRYNODEB CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL O'R CYFARFODYDD BLAENOROL | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w ddatblygu gan |
| **A97 2017/18** | **PS i ystyried lle mae'r ymddiriedolaeth arni yn gyfreithiol o ran ei chysylltiad â SCHTh.** | **SCHTh** |